

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o bell, 8 Mawrth, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.J. Griffiths (Cadeirydd); Y Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, J.E. Charles, O. Griffiths, T.H. Jarvie, R. Nugent-Finn a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr B.T. Gray (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd), G. John a K.F. McCaffer (Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 4. CEFNOGAETH I OFALWYR YM MRO MORGANNWG (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi'r adroddiad eglurhaol a'r Adroddiad Blynyddol atodol ar Gymorth i Ofalwyr Di-dâl a'r gwaith a wnaed i gefnogi gofalwyr ym Mro Morgannwg.

(2) Bod adroddiad blynyddol pellach ar gymorth i Ofalwyr Di-dâl ym Mro Morgannwg yn cael ei dderbyn ym mis Mawrth 2023.

(3) Bod yr agweddau canlynol o'r adroddiad yn cael eu nodi:

- dyletswyddau'r Cyngor a'i bartneriaid o ran darparu gwasanaethau i Ofalwyr Di-dâl o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a
- sut roedd y Cyngor a'i bartneriaid yn bodloni'r Blaenoriaethau Gweinidogol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl ac yn ystyried gwaith rhanbarthol y ffrwd waith Gofalwyr Di-dâl.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad eglurhaol a'r adroddiad atodol er mwyn sicrhau bod Aelodau'n parhau i oruchwylio'r swyddogaeth bwysig a gyflawnir gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn effeithiol yn flynyddol.

(2) Bod Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn ymwybodol o'r dyletswyddau a amlinellir mewn deddfwriaeth a'r Blaenoriaethau Gweinidogol a osodwyd ar gyfer gofalwyr yn ogystal â'r gwaith rhanbarthol sy'n digwydd ar gyfer gofalwyr di-dâl a chymorth wedi'i hwyluso gan yr Aelod Arweiniol dros Ofalwyr.

EITEM AGENDA 5. CYTUNDEB RHEOLI HAMDDEN – ADRODDIAD PERFFORMIAD BLWYDDYN 9 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad eglurhaol a pherfformiad y Contract Etifeddiaeth Hamdden ar gyfer Blwyddyn 9, fel y nodir yn Atodiad A.

(2) Bod adroddiad perfformiad Blwyddyn 10 ar gyfer y contract Rheoli Hamdden yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn hydref 2022 (Medi).

(3) Nodi'r camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru a chymeradwyo'r dull gweithredu a gynigiwyd ar gyfer gweddill cyfnod y contract.

(4) Y dylid cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i'r Cabinet i'w ystyried mewn perthynas â'r materion a godwyd gan Archwilio Cymru.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad eglurhaol a'r adroddiad atodol mewn perthynas â pherfformiad y contractwr yn ystod cyfnod Blwyddyn 9.

(2) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu am gynnydd y Contract Rheoli Hamdden.

(3&4) Sicrhau bod y Contract Rheoli Hamdden yn adlewyrchu canfyddiadau Adroddiad Archwilio Cymru a bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i roi sicrwydd bod y materion a nodwyd gan Archwilio Cymru yn cael eu datblygu.

EITEM AGENDA 6. MONITRO REFENIW A CHYFALAF 1 EBRILL I 31 IONAWR, 2022(CGC) –

ARGYMHELLWYD – Nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad, roedd yn ymwneud â'r alldro referniw rhagamcanol ar gyfer 2021/22.

EITEM AGENDA 7. DATBLYGIAD ARFAETHEDIG CYNGHRAIR Y FRO - MODEL INTEGREDIG AR GYFER CYFLENWI IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION SY'N DDINASYDDION YM MRO MORGANNWG (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r datblygiad arfaethedig o fodel Cynghrai ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- (2) Cymeradwyo'r cynnig y dylai'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion / Rheolwr Ardal symud ymlaen i gam un, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (3) Y byddai adroddiad pellach yn dilyn cam cyntaf y broses yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor ynghylch y ffaith y byddai unrhyw gytundeb partneriaeth yn y dyfodol yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu ac y byddai angen ei gymeradwyo gan y Cabinet.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r datblygiad arfaethedig o fodel rheoli integredig newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd cymunedol ac ardaloedd oedolion.
- (2) Sicrhau bod y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion / Rheolwr Ardal wedi cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu cyn datblygu model y Gynghrai ymhellach.
- (3) Cafodd y Pwyllgor Craffu gyfle i adolygu'r cynnydd a wnaed ac roedd yn gallu ystyried y materion perthnasol a fyddai'n llywio'r gwaith o ddatblygu trefniadau integredig mwy ffurfiol gan ystyried y broses gymeradwyo arfaethedig ar gyfer unrhyw gytundeb partneriaeth yn y dyfodol.

EITEM AGENDA 8. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2021/22(CGC) –

ARGYMHELLWYD – Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod

- (1) Nodi'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blyneddol 2021/22, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.
- (2) Nodi'r camau unioni sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(3) Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy Strategaeth Adfer y Cyngor a Chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws parhaus.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 sydd â'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ei ofynion perfformiad fel y'u hamlinellir yn Neddff Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac yn adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod yn gwneud y mwyaf o ei gyfraniad at gyflawni nodau llesiant Cymru.

(3) Sicrhau bod Aelodau'n cadw trosolwg o'r materion adfer sy'n effeithio ar waith y Cyngor a'u Pwyllgorau Craffu priodol.

EITEM AGENDA 9. CYNLLUNIAU GWASANAETH A PHENNU TARGEDAU I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2022/23 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Bod y Cynlluniau Gwasanaeth (Atodiad A) a'r holl weithgareddau cynlluniedig fel y maent yn berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor (fel y dangosir yn Atodiad C) yn cael eu cymeradwyo i'r Cabinet eu hystyried.

(2) Bod y targedau gwella gwasanaeth arfaethedig ar gyfer 2022/2023 (Atodiad B) sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor yn cael eu cymeradwyo i'r Cabinet eu hystyried.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau bod y Cynlluniau Gwasanaeth sy'n cyd-fynd â chylch gorchwyl y Pwyllgor yn gywir, yn gyfredol ac yn berthnasol ac yn dod yn brif ddogfen ar gyfer monitro perfformiad yn erbyn Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cynllun Corfforaethol a'i fesur yn ystod 2022/2023.

(2) Sicrhau bod Fframwaith Mesur Perfformiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi set berthnasol o fesurau perfformiad a thargedau y gellir monitro a mesur y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn eu herbyn yn ystod 2022/2023.